# Cyfiawnder Trwy Ein Dewrder

## Cynllun Ymateb Cyngor Gwynedd

Crynodeb

CYNGOR GWYNEDD



# Helo

Dyma Gynllun Ymateb Cyngor Gwynedd.

Mae cynllun ymateb yn esbonio beth fyddwn ni'n ei wneud ar ôl i rywbeth difrifol ddigwydd. Mae'n helpu staff i weithio gyda'i gilydd a gyda gwasanaethau eraill i gadw pobl yn ddiogel.

## Pam mae angen y cynllun hwn arnom ni?

Yn 2023, digwyddodd rhywbeth difrifol yn Ysgol Friars ym Mangor. Roedd pennaeth — rhywun oedd mewn sefyllfa o ymddiriedaeth — wedi defnyddio'r grym hwnnw i niweidio pobl ifanc a'u cam-drin yn rhywiol.

**Rydym ni'n gyfrifol am ysgolion ar draws yr ardal hon. Ni ddylai'r hyn a ddigwyddodd yn Ysgol Friars fod wedi digwydd erioed ac mae'n wirioneddol ddrwg gennym am hynny.**

Yn 2024, dechreuodd ymchwiliad annibynnol. Edrychodd ar:

- beth aeth o'i le
- pa gyfleoedd a gafodd eu colli i gadw plant a phobl ifanc yn ddiogel
- beth sydd angen newid fel na fydd hyn byth yn digwydd eto.

Cyhoeddodd yr ymchwiliad adroddiad o'r enw Cyfiawnder Trwy Ein Dewrder. Gallwch ddarllen yr adroddiad hwnnw yma: link




**Rydym ni wedi defnyddio'r adroddiad hwnnw a chyngor gan arbenigwyr i greu'r Cynllun Ymateb hwn.** Mae'n esbonio:

- beth rydym ni wedi'i wneud hyd yma i wella ac i gadw plant a phobl ifanc yn ddiogel
- beth fyddwn ni'n ei wneud nesaf i wneud yn siŵr na fydd hyn byth yn digwydd eto.

**Bydd y cynllun hwn yn parhau i ddatblygu, a byddwn ni'n parhau i symud ymlaen.**

**Cam-drin plant yn rhywiol** – pan fydd plentyn yn cael ei orfodi neu ei roi dan bwysau i gymryd rhan mewn gweithgareddau rhywiol. Mae'n drosedd ddifrifol. **Nid bai'r plentyn yw hyn byth.**

## Eich hawliau

Mae gan bob plentyn hawliau. Mae **Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC)** yn dweud bod gan bob plentyn yr hawl i fod yn ddiogel a'r hawl i gael rhywun i wrando arnyn nhw. Gallwch ddysgu mwy am eich hawliau yma: Eich Hawliau

**Gallwch siarad — a byddwn ni'n gwrando.**

# Beth rydym ni eisiau ei wneud

## Bod yn onest am beth ddigwyddodd

Bod yn glir na ddylai hyn fod wedi digwydd erioed, ac na ddylai unrhyw blentyn orfod mynd drwy hyn.

## Dweud sori

Ymddiheuro i'r plant a'r teuluoedd.

## Rhoi cefnogaeth i'r bobl gafodd eu heffeithio

Helpu'r plant, y teuluoedd, yr ysgol a'r gymuned i wella.

## Deall yr holl ffeithiau

Deall popeth a ddigwyddodd.

## Dysgu o beth aeth o'i le

Dysgu o gamgymeriadau ac o beth mae'r adroddiadau'n ei ddweud wrthym ni.

## Gwneud newidiadau go iawn a gwella

Gweithredu'n gyflym i wneud pethau'n well ac yn fwy diogel, fel na fydd hyn yn digwydd eto.

## Bod yn agored a dangos ein cynnydd

Bod yn glir ac yn onest am beth rydym ni'n ei wneud a dangos sut mae pethau'n gwella.

**I wneud hyn, byddwn ni'n canolbwyntio ar 7 maes rydym ni eisiau eu gwella.**

# 1 Gwrando ar blant a phobl ifanc a rhoi cefnogaeth iddyn nhw

## Beth rydym ni wedi'i wneud

Rydym ni wedi:

- ymddiheuro'n glir am beth ddigwyddodd
- gwneud yn siŵr bod plant a phobl ifanc yn cael cefnogaeth gan gwnselwyr a gweithwyr sydd wedi cael hyfforddiant
- rhoi cefnogaeth ychwanegol i Ysgol Friars gyda chwnselwyr arbenigol a chanolfan llesiant
- gwneud yn siŵr bod gan bob plentyn neu berson ifanc sydd wedi cael ei effeithio'n uniongyrchol gynllun cefnogaeth personol

Doedd pawb ddim eisiau cefnogaeth, ac rydym ni wedi parchu eu penderfyniad.

## Beth fyddwn ni'n ei wneud nesaf

**Gwella sut rydym ni'n gwrando ar blant a phobl ifanc**

Bydd cyfleoedd iddyn nhw rannu eu barn, gan gynnwys siarad â gweithiwr cymdeithasol os ydyn nhw eisiau. Byddwn ni'n hyfforddi staff fel eu bod nhw'n gwybod sut i wrando ar blant a phobl ifanc a'u cynnwys mewn penderfyniadau.

**Sylwi ar niwed yn gynnar a gweithredu**

Mae staff yn cael hyfforddiant i:

- adnabod arwyddion o gamdriniaeth, gan gynnwys meithrin perthynas amhriodol
- sylwi ar risgiau'n gynnar a gweithredu.

Byddwn ni'n parhau i wella'r hyfforddiant hwn.

**Gwella cefnogaeth i blant a phobl ifanc sydd wedi profi trawma**

Mae staff yn cael hyfforddiant i ymateb gyda gofal a dealltwriaeth.

**Trawma** – pan fydd rhywbeth sy'n peri gofid mawr neu ofn mawr yn digwydd. Gall effeithio ar sut mae rhywun yn teimlo, yn meddwl neu'n ymddwyn am amser hir.

**Parchu hawliau plant a'u gwneud yn rhan bwysicach o'n gwaith**

Ein nod yw bod plant a phobl ifanc yn teimlo eu bod nhw'n cael eu clywed, eu parchu a'u cadw'n ddiogel.

**Ei gwneud yn haws i blant a phobl ifanc roi gwybod am bryderon a siarad allan**

Creu ffyrdd diogel a phreifat i rannu pryderon.

# 2 Cadw plant yn ddiogel a gweithredu ar bryderon am oedolion

## Beth rydym ni wedi'i wneud

Rydym ni wedi:

- diweddaru ein rheolau diogelu i amddiffyn plant a phobl ifanc yn well
- gwneud yn siŵr bod staff wedi cael hyfforddiant
- gwneud yn siŵr bod ffyrdd clir o roi gwybod am bryderon
- cynnal gwiriadau i wneud yn siŵr bod oedolion yn ddiogel i weithio gyda phlant a phobl ifanc
- diweddaru rheolau diogelu a hyfforddiant mewn ysgolion
- gweithio gydag arolygwyr Estyn i wella ein gwaith.

**Diogelu** – amddiffyn plant rhag niwed a gwneud yn siŵr eu bod nhw'n teimlo'n ddiogel, yn cael cefnogaeth ac yn cael gofal.

## Beth fyddwn ni'n ei wneud nesaf

**Gwirio ysgolion yn amlach**

Ymweld ag ysgolion bob blwyddyn i wneud yn siŵr eu bod nhw'n ddiogel ac i gynnig cefnogaeth.

**Gwirio ein gwaith**

Gwneud mwy o wiriadau i wneud yn siŵr bod rheolau diogelu'n cael eu dilyn ym mhob ysgol.

**Gweithio gydag arbenigwyr**

Parhau i weithio gyda Chomisiynydd Plant Cymru a sefydliadau eraill i arwain ein gwaith a'i herio.

**Gwella sut mae pryderon yn cael eu trin**

Byddwn ni'n:

- gwella sut mae pryderon am oedolion yn cael eu riportio a'u hadolygu
- ei gwneud yn haws i'r heddlu rannu gwybodaeth
- gwneud yn siŵr bod yr holl wybodaeth yn cael ei hystyried wrth benderfynu a yw rhywun yn ddiogel i weithio gyda phlant
- gwneud yn siŵr bod staff yn deall eu rolau a beth i'w wneud os ydyn nhw'n poeni.

Fydd neb yn gwneud y penderfyniadau diogelwch hyn ar eu pen eu hunain.

**Cofnodi pryderon a gweithredu arnyn nhw**

Gwella sut rydym ni'n cofnodi ac yn ymateb i bryderon am oedolion, hyd yn oed os ydyn nhw'n ymddangos yn fach. Rydym ni'n creu system glir i gadw cofnod o bryderon fel bod modd sylwi ar batrymau.

**Ei gwneud yn haws i godi pryderon**

Ei gwneud yn haws i bobl roi gwybod am bryderon, gan gynnwys siarad â rhywun yn uniongyrchol.

**Gwneud yn siŵr bod pobl yn gallu dysgu o adroddiad Cyfiawnder Trwy Ein Dewrder**

Gwneud yr adroddiad yn haws dod o hyd iddo a'i ddarllen ar-lein fel bod mwy o bobl yn gallu dysgu ohono.

**Gweithio'n well gydag ysgolion a gwasanaethau eraill**

Gwella sut rydym ni'n gweithio ac yn rhannu gwybodaeth gydag ysgolion, gwasanaethau, sefydliadau a chynghorau eraill.

# 3 Hyfforddi staff a gwella sut rydym ni'n gweithio

## Beth rydym ni wedi'i wneud

Rydym ni wedi:

- gwella hyfforddiant diogelu i bob aelod o staff
- gwirio bod staff wedi cwblhau'r hyfforddiant hwn
- gwirio bod staff yn deall eu hyfforddiant ac yn gwybod beth i'w wneud os oes problem diogelwch
- parhau i adolygu hyfforddiant i wneud yn siŵr ei fod yn gyfredol drwy wrando ar adborth gan ysgolion a sefydliadau eraill
- rhannu gwybodaeth glir am beth ddigwyddodd, ond gwneud yn siŵr ein bod ni'n diogelu pobl ifanc a gwybodaeth bersonol
- gwneud yn siŵr bod grŵp annibynnol o arbenigwyr yn gwirio bod ein systemau'n gweithio, fel ein bod ni'n gallu gweld lle mae angen i ni wella.

## Beth fyddwn ni'n ei wneud nesaf

**Gwella ffyrdd i staff godi pryderon a siarad allan**

Bydd ffyrdd clir a diogel o roi gwybod am bryderon. Bydd staff yn cael hyfforddiant fel eu bod nhw'n gwybod sut a phryd i siarad allan.

**Mwy o hyfforddiant am feithrin perthynas amhriodol**

Darparu mwy o hyfforddiant i helpu staff i ddeall sut gall camdriniaeth ddigwydd, gan gynnwys meithrin perthynas amhriodol. Bydd hyn yn helpu staff i adnabod arwyddion rhybuddio yn gynharach.

**Rhoi cefnogaeth well i staff diogelu**

Gwneud yn siŵr bod cefnogaeth i staff ysgol sy'n gyfrifol am ddiogelu. Gall hyn gynnwys canllawiau ychwanegol a chefnogaeth gan arbenigwyr.

**Meithrin perthynas amhriodol** – pan fydd rhywun yn esgus bod yn garedig neu'n gyfeillgar i ennill ymddiriedaeth plentyn, er mwyn gallu ei niweidio neu ei gam-drin.

# 4 Cefnogi arweinwyr ysgolion a llywodraethwyr

## Beth rydym ni wedi'i wneud

Rydym ni wedi:

- rhoi hyfforddiant a chefnogaeth i lywodraethwyr ysgol i'w helpu i wneud eu rôl
- gwirio sut cafodd pryderon eu trin a pha gamau gafodd eu cymryd, fel ein bod ni'n gallu dysgu o gamgymeriadau.

**Llywodraethwyr ysgol** – pobl sy'n gwirfoddoli i helpu i redeg ysgolion a gwneud penderfyniadau pwysig.

## Beth fyddwn ni'n ei wneud nesaf

**Parhau i wella cefnogaeth i lywodraethwyr ysgol**

Mae hyn yn cynnwys gwella hyfforddiant fel bod llywodraethwyr ysgol yn teimlo'n hyderus yn eu rôl ac yn gallu cadw plant a phobl ifanc yn ddiogel.

**Gwella sut mae ysgolion yn cael eu rhedeg**

Byddwn ni'n:

- gwella hyfforddiant fel ei bod hi'n haws cael cefnogaeth
- rhoi canllawiau cliriach i bobl sy'n cefnogi llywodraethwyr
- edrych ar ffyrdd o roi cefnogaeth well ar draws ysgolion.

# 5 Deall a gwella arferion cyfyngol

## Beth rydym ni wedi'i wneud

Rydym ni wedi:

- gwneud yn siŵr bod gan ysgolion reolau clir am arferion cyfyngol
- gwneud yn siŵr bod staff yn cael hyfforddiant am bryd a sut i ddefnyddio arferion cyfyngol
- cynyddu nifer y staff yn ein tîm fel ein bod ni'n gallu ymweld ag ysgolion bob blwyddyn a gwirio eu bod nhw'n dilyn y rheolau.

i **Arferion cyfyngol** – ymyrryd yn gorfforol i gadw rhywun yn ddiogel, er enghraifft, eu dal neu eu harwain i ffwrdd o berygl. Dylid eu defnyddio fel dewis olaf yn unig, am yr amser byrraf posibl, a byth fel cosb.

## Beth fyddwn ni'n ei wneud nesaf

**Gwneud yn siŵr bod rheolau a hyfforddiant yn glir ac yn gyson**
Parhau i adolygu a gwella'r rheolau fel eu bod nhw'n parhau'n gyfredol. Bydd staff yn cael yr un hyfforddiant fel bod pawb yn gwybod beth yw eu rolau a'u cyfrifoldebau.

**Deall arferion cyfyngol**
Helpu pobl i ddeall beth yw arferion cyfyngol a phryd mae modd eu defnyddio.

**Gwirio ein systemau ar gyfer arferion cyfyngol**
Gofyn i sefydliad allanol adolygu ein rheolau, ein hyfforddiant a'n cefnogaeth.

**Cefnogi disgyblion**
Adolygu sut mae ysgolion yn cefnogi disgyblion pan fydd arferion cyfyngol yn cael eu defnyddio.

# 6 Cynllunio ar gyfer argyfyngau a gweithredu'n gyflym

## Beth rydym ni wedi'i wneud

Rydym ni wedi:

- rhoi hyfforddiant i ysgolion ar sut i ddelio ag argyfyngau
- gwneud yn siŵr bod staff yn deall y dylent weithredu'n gyflym a ffonio 999 mewn sefyllfa ddifrifol
- rhannu canllawiau gydag ysgolion a llywodraethwyr am beth i'w wneud mewn argyfwng.

## Beth fyddwn ni'n ei wneud nesaf

**Gwella ein cynlluniau argyfwng**

Gwella ein cynlluniau i ddelio â phob math o argyfyngau. Mae hyn yn cynnwys sefyllfaoedd lle gall y person sydd wrth y llyw fod yn achosi niwed.

**Gosod rolau a chamau gweithredu clir ar gyfer argyfyngau**

Gwneud yn siŵr bod pawb yn gwybod beth i'w wneud a phwy ddylai gymryd rheolaeth yn y sefyllfaoedd hyn.

**Gwneud yn glir beth i'w wneud os oes argyfwng diogelu**

Creu camau clir ar gyfer ymateb i argyfyngau sy'n cynnwys niwed i blant a phobl ifanc. Mae hyn yn golygu eu cadw'n ddiogel a gweithredu'n gywir yn gyflym.

**Defnyddio'r cynllun argyfwng ar draws pob gwasanaeth**

Defnyddio'r cynlluniau gwell hyn mewn lleoedd eraill fel lleoliadau gofal a gwasanaethau cymunedol, nid mewn ysgolion yn unig.

# 7 Cefnogi Ysgol Friars i wella a bod yn sefydlog

## Beth rydym ni wedi'i wneud

Rydym ni wedi:

- cefnogi'r ysgol i'w helpu i wella a dod yn lle diogel
- dod â staff profiadol i mewn i arwain a chefnogi arweinwyr, athrawon, staff a disgyblion
- gwneud yn siŵr bod Ysgol Friars wedi gwella ei rheolau a'i pholisïau diogelu
- cyfarfod â staff i wrando ar bryderon a rhannu gwybodaeth
- gwneud newidiadau i arweinyddiaeth yr ysgol. Mae tîm newydd yn ei le erbyn hyn, gan gynnwys newid pwy sy'n gyfrifol am ddiogelu
- gwneud yn siŵr bod gan yr ysgol lywodraethwyr newydd sydd wedi cael hyfforddiant a chefnogaeth
- rhoi pennaeth profiadol yn ei le i arwain yr ysgol.

## Beth fyddwn ni'n ei wneud nesaf

**Penodi pennaeth parhaol**

Mae'r ysgol wedi penodi pennaeth parhaol newydd. Bydd hyn yn helpu'r ysgol i symud ymlaen a dechrau pennod newydd.

**Parhau i wirio sut mae'r ysgol yn gweithio**

Byddwn ni'n gweithio gyda'r ysgol i adolygu sut mae'n gweithredu. Ein nod yw helpu'r ysgol i deimlo'n ddiogel, yn sefydlog ac yn lle positif i ddysgu.

# Y camau nesaf – dim ond y dechrau yw'r cynllun hwn

Mae newid go iawn yn gofyn am ymrwymiad. Bydd grŵp o arbenigwyr annibynnol yn:

- gwirio ein cynnydd
- herio ein ffordd o feddwl
- gwneud yn siŵr ein bod ni'n gwneud beth rydym ni'n dweud y byddwn ni'n ei wneud.

Byddwn ni'n adolygu'r cynllun hwn yn rheolaidd i wneud yn siŵr ei fod yn gwneud gwahaniaeth go iawn. Byddwn ni'n rhannu diweddariadau'n agored fel bod pobl ifanc, teuluoedd a'r gymuned yn gallu gweld yn union sut mae pethau'n newid.

**Mae hwn yn gynllun byw — a byddwn ni'n parhau i symud ymlaen.**

## Diolch am ddarllen hwn

Os oes rhywbeth yn eich poeni, does dim rhaid i chi gadw'r peth i chi'ch hun. Mae gennych chi'r hawl i siarad â rhywun rydych chi'n ymddiried ynddyn nhw — a'r hawl i gael rhywun i wrando arnoch chi.

Ewch i'n gwefan i gael llinellau cymorth a manylion:

➡ gwynedd.llyw.cymru/cy/Trigolion/Ysgolion-a-dysgu/Presenoldeb-ymddygiad-a-lles/Cyfiawnder-Trwy-Ein-Dewder/Canlyniad-Adolygiad-Ymarfer-Plant-Tachwedd-2025.aspx

Gallwch ddysgu mwy am Gomisiynydd Plant Cymru yma: complantcymru.org.uk

## Cynnydd hyd yma

**Rydym ni eisoes wedi dechrau gweithio ar y camau gweithredu hyn.**

Defnyddiwch y dolenni isod i weld crynodeb gweledol o:

➡ Beth sydd wedi newid hyd yma?

➡ Beth sydd dal angen ei wneud?